# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## 10 RHAGFYR 2020

| |
|---|
| **POLISI PLEIDLEISIO PPC** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Cymeradwyo mabwysiadu Polisi Pleidleisio Robeco ar gyfer PPC** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Mae PPC yn ystyried datblygu polisi pleidleisio. Penodwyd Robeco fel darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu'r Bartneriaeth ym mis Mawrth 2020 ac argymhellir bod y Bartneriaeth yn addasu polisi pleidleisio Robeco ar hyn o bryd, tra'n ystyried sut ellir datblygu'r polisi safonol hwn a'i deilwra'n benodol ar gyfer y Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol dros y 12 mis nesaf. Mae angen i'r CBLl gymeradwyo'r polisi hwn. |



| | | |
|---|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Chris Moore** | **Swydd:**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **Rhif Ffôn: 01267 224160**<br><br>**E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 10 RHAGFYR 2020

| **POLISI PLEIDLEISIO PPC** | |
|---|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Mae stiwardiaeth yn elfen o Bolisi Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth (adran 7) a chytunwyd y byddai'r Bartneriaeth yn penodi Darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu i gyflawni swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran y Bartneriaeth, gan gynnwys cynorthwyo wrth lunio Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth. Penodwyd Robeco fel darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu'r Bartneriaeth ym mis Mawrth 2020.<br><br>Un agwedd o rôl Robeco yw cynorthwyo wrth lunio Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Swyddogion o fewn y Bartneriaeth a Robeco a daethpwyd i gonsensws mai'r ffordd orau o weithredu pleidleisio ar gyfer y Bartneriaeth yw mabwysiadu polisi safonol Robeco yn y cyfamser ac yna ystyried sut ellir datblygu'r polisi hwn dros y 12 mis nesaf a'i deilwra'n fwy penodol ar gyfer credoau a gofynion y Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol.<br><br>Dros y 12 mis nesaf, bydd y Bartneriaeth yn datblygu ei wybodaeth ac yn llunio ei gredoau Pleidleisio. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y wybodaeth a ddatblygir a'r credoau a nodwyd yn hidlo i'r adolygiad blynyddol ac addasiad o Bolisi Pleidleisio'r Bartneriaeth.<br><br>Mae polisi safonol Robeco wedi cael ei adolygu gan is-grŵp RI, sy'n cynnwys swyddogion o'r Bartneriaeth a Hymans ac ni nodwyd unrhyw faterion wrth fabwysiadau'r polisi hwn yn y cyfamser. | |
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae polisi pleidleisio wedi cael ei baratoi fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |